

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod
Presennol

1af Rhagfyr, 2022.

John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg), Huw Pritchard, Sarah Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Cyngorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau

Michael Jones (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards, Dafydd Thomas (Penmorfa), Stephen Churchman (Cyngorydd Cyngor Gwynedd)

Datgan Buddiant

Richard Parry ac Edward Evans - Eitem 16

Penderfyniadau
Etholiadau 2022

Wedi derbyn ymateb gan Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau, Cyngor Gwynedd. Anfodlonrwydd yn parhau ymysg y cynghorwyr i ymateb Cyngor Gwynedd a'r anfoneb o £642.00. Clerc i wneud ymholiadau i weld os oes cyngorau cymuned eraill yn rhannu'r un anfodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth Etholiadol.

John Ystumllyn

Clerc wedi cysylltu gyda Ffion Gwyn yr Arlunydd ac mae'n hapus i gydweithio gyda Chyngor Cymuned Dolbenmaen ar gael bwrdd gwybodaeth i Bentrefelin i gydnabod John Ystumllyn ac enwogion eraill sydd wedi eu claddu ym Mynwent St Cynhaearn. Adroddwyd bod dau grant posib ar gael. Clerc i wneud cais i'r ddau.

Dafarn Faig	Wedi derbyn ymateb gan Merfyn Wyn Morris. Trefniant wedi ei wneud i dorri'r gordyfiant, Mr Morris yn disgwyl union ddyddiad. Bydd wedyn ydi ail-asesu'r sefyllfa ar ôl y toriad i weld os oes angen unrhyw welliannau eraill.
Hwb Eifionydd	Clerc i ysgrifennu at Reolwr Hwb Eifionydd i ddatgan siomedigrwydd nad yw'r un Cyngor Cymuned/Tref yn cael eu cynrychioli ar y Panel Cleifion.
Diffibriliwr Prenteg	Clwb Cerdded Pant Ifan wedi casglu arian ac eisiau rhoi'r arian yn rhodd i Gyngor Cymuned Dolbenmaen er mwyn prynu diffibriliwr i'r pentref. Pwyllgor Neuadd Prenteg yn hapus i'w gael wedi ei osod yno. Clerc i wneud ymholiadau gydag Unllais Cymru i weld ble yr ydym yn sefyll gyda derbyn rhodd arian i brynu'r offer.
Cyfarfod Aml-leoliad	Clerc wedi cael cyfarfod llwyddiannus gyda Chyngor Gwynedd. Adroddwyd bod grant ar gael i roi band llydan mewn man cymunedol. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.
Ffioedd Claddu	Penderfynwyd gadael y ffioedd fel y maent ar hyn o bryd oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol gyda'r bwriad o adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn.
Cynllunio	NP2/16/T413H: Adeiladu balwstrad wedi ei wydro yn rhannol i'r teras Beudy Mawr, Erw Suran, Cwm Ystradllyn. LL51 9BQ - Gwrthwynebu C22/1102/36/AC: Ymgynghoriad Cynllunio - tir i'r dde o'r A487 ac i'r dwyrain o'r B4411, Bryncir, LL51 9LQ. Cais i newid yr amod amser i alluogi mwy o amser i gwblhau'r datblygiad. - Dim gwrthwynebiad.

